CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

# Rheoli Asbestos
# Sesiwn Briffio
# 'Dyletswydd i Reoli'

HANES


Danger Asbestos
Do not disturb
Report accidental damage immediately



# Rhan 1 – Ymwybyddiaeth

MATHAU, DEFNYDD A PHERYGLON ASBESTOS

# Beth yw asbestos ?

- Mae asbestos yn derm generig ar gyfer sawl silicad mwynol sydd i'w cael yn naturiol mewn semau a gwythiennau ledled y byd
- Mae'n ddeunydd ffibrog sy'n digwydd yn naturiol
- Mae Deunydd sy'n Cynnwys Asbestos (ACM) yn cael ei ddiffinio fel "unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys unrhyw un, neu gymysgedd o'r gwahanol fathau o asbestos"





# Mathau o Asbestos

**Asbestos gwyn (Crysotil)**




**Asbestos brown (Amosit)**




**Asbestos glas (Crosidolit)**




Roedd asbestos wir yn 'fwyn hudol' felly gallwch chi ddeall pam ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn cymaint o gynhyrchion

Ffibrau o gryfder tynnol uchel

Dargludedd thermol a thrydanol isel

Amsugno sain

Ymwrthedd i asid (glas) ac alcali (gwyn)
Gwrth-ddŵr (amffibolau)

Yn gemegol anadweithiol

Sefydlogrwydd thermol – ardderchog ar gyfer inswleiddio gwres

Roedd yn cael ei ddefnyddio yn helaeth ar gyfer inswleiddio tân a gwres

Ond…

# Yn y DU, mae mwy na 5,000 o bobl yn marw bob blwyddyn o effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig ag asbestos


Gall anadlu ffibrau asbestos fod yn beryglus i iechyd ond nid yw'r effeithiau'n amlwg yn syth, gallan nhw gymryd rhwng 15 a 60 neu ragor o flynyddoedd i ddatblygu. Mae clefydau'n cynnwys:-

Placiau plewrol (tewychu plewra lleol)

Asbestosis (creithiau ar feinwe'r ysgyfaint)

Canser yr ysgyfaint (tiwmorau'n datblygu)


Mesothelioma (canser y leinin o amgylch yr ysgyfaint neu'r stumog, sy'n anwelladwy)




**Latest statistics are for 2018 for deaths and 2019 for IIDB cases*


- Mae nifer y marwolaethau blynyddol wedi cynyddu'n serth dros y 50 mlynedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos cyn 1980, ac mae disgwyl iddyn nhw barhau ar y lefelau presennol am weddill y degawd cyn gostwng.
- Ysgogodd hyn ddeddfwriaeth i wahardd defnydd pellach o asbestos a'i reoli.

# Deddfwriaeth Asbestos




*Nid yw'r gwaharddiad yn fyd-eang

# Ciplun o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACMs)




1. Haenau wedi'u chwistrellu
2. Sment asbestos
3. Deunydd inswleiddio gronynnog heb ei lanw'n dynn
4. Lagio
5. Teils nenfwd Bwrdd Inswleiddio Asbestos
6. Paneli Bwrdd Inswleiddio Asbestos
7. Rhaniadau wal Bwrdd Inswleiddio Asbestos
8. Rhaffau, seliau, gasgedi, papur
9. Teils llawr
10. O amgylch boeleri
11. Tecstilau fel blancedi tân
12. Haenau addurniadol gweadog
13. To sment
14. Paneli sment
15. Gwteri sment
16. Soffitiau – bwrdd inswleiddio asbestos neu sment
17. Ffliw sment

# Eitemau symudol sy'n cynnwys ACMs







Gas mask in its original state prior to sampling exercise



Front end of filter to mask

Mae'r Rheoliad Gwahardd Asbestos yn nodi, pan nad yw eitem bellach yn cael ei ddefnyddio at ei ddiben, nid oes modd ei werthu, ei symud i adeilad gwahanol neu ei roddi. Mae i'w waredu fel gwastraff asbestos. Mae hyn yn cynnwys offer gwyddoniaeth, odynau, offer arlwyo.

Roedd asbestos yn cael ei ddefnyddio hyd at y gwaharddiad yn 1999. Dim ond os yw'n adeilad newydd o'r flwyddyn 2000 ymlaen y mae modd asesu adeiladwaith adeilad fel 'Heb Asbestos'.



1990's to sment asbestos

# Nid yw presenoldeb ACMs yn eich adeilad yn golygu eu bod nhw i gyd yn risg uchel – mae breuder ynghyd â chyflwr, maint a lleoliad yn rhan o'r asesiad.

Breuder = pa mor hawdd mae'r cynnyrch yn rhyddhau ffibrau asbestos

- Asbestos llac
- Haenau chwistrellu asbestos
- Ynysiad
- Bwrdd Inswleiddio Asbestos
- Papur
- Tecstilau
- Sment asbestos
- gorchudd gweadog
- Teils llawr
- Cynnyrch bitwmen



# Rhan 2 – Rolau a Chyfrifoldebau


DEILIAID DYLETSWYDD, PRYDLESU I MEWN AC ALLAN, CONTRACTAU

# Gofynion presennol


- CAR 2012 (Rheoliadau Rheoli Asbestos)
- L143 ACOP (Cod Ymarfer Cymeradwy)
- HSG264 Canllaw i Syrfewyr
- HSG247 Canllaw i Gontractwyr Trwyddedig
- HSG 248 Canllaw i Ddadansoddwyr
- HSG210 Taflenni Tasgau Hanfodol Asbestos

# Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012

- Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer asbestos yn y DU yw CAR 2012 – Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012
- Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cynhyrchu ACOP (Approved Code Of Practice) L143 (Second Edition) Published 2013 – Managing and working with asbestos, sydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim.



# Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Prif gamau i reoli Asbestos



# CYNLLUN RHEOLI ASBESTOS

# Pwy sy’n Ddeiliad Dyletswydd?
# L143 (2nd Edition) Managing and working with asbestos

- **Unrhyw unigolyn sydd, drwy gontract neu denantiaeth, â rhwymedigaeth o unrhyw faint mewn perthynas â chynnal a chadw neu atgyweirio safle annomestig neu unrhyw fodd o fynd i mewn neu adael y safle hwnnw.**

  NEU

- Mewn perthynas ag unrhyw ran o safle annomestig lle nad oes contract neu denantiaeth o'r fath, unrhyw unigolyn sydd â rheolaeth o unrhyw faint o'r rhan honno o'r safle annomestig hwnnw neu unrhyw fodd o fynd i mewn neu adael y safle hwnnw.
- A phan fo mwy nag un deiliad dyletswydd o'r fath, mae'r cyfraniad cymharol i'w wneud gan bob person wrth gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth hon.

# Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

- Ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd, y 'deiliad dyletswydd' fydd y cyflogwr.
- Mewn sefyllfaoedd lle mae cyllidebau ar gyfer gwaith cynnal a chadw a rheoli adeiladau yn cael eu dal gan y Rheolwr Eiddo neu Bwyllgor Rheoli, bydd y ddyletswydd i reoli asbestos yn cael ei rhannu rhwng y Rheolwr Eiddo/Pwyllgor Rheoli a'r Awdurdod Lleol.
- Bydd gan bob parti sy'n trefnu ar gyfer gwaith atgyweirio, cynnal a chadw, rheoli a mynediad i'r safle rwymedigaethau cyfreithiol o dan Reoliad 4, Y Ddyletswydd i Reoli Asbestos mewn Safleoedd Annomestig.

# Rheoliad 4 (CAR) Duty to Manage Asbestos


- Nid oes modd dirprwyo cyfrifoldebau cyfreithiol Deiliad Dyletswydd, ond gall deiliaid dyletswydd enwebu unigolion eraill i wneud y cyfan neu ran o'r gwaith i gynorthwyo gyda chydymffurfio â'r dyletswyddau. Rhaid i unrhyw un neu unrhyw sefydliad sy'n cael ei enwebu i wneud rhywfaint o waith o ganlyniad i'r rheoliad hwn wybod beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud a gallu ei wneud yn ddiogel.

  - Dylen nhw fod yn gymwys i wneud y gwaith hwn.
  - Mae gofyniad i eraill gydweithredu cyn belled ag y mae'n angenrheidiol i ganiatáu i'r Deiliad Dyletswyddau gydymffurfio â Rheoliad 4 CAR 2012.
  - Rhaid i unrhyw un nad yw'n Ddeiliad Dyletswydd, ond sydd â gwybodaeth am y safle neu sy'n rheoli'r safle, helpu'r deiliad dyletswydd, cyn belled ag y bo angen, i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Ond nid yw hyn yn cynnwys talu am gostau neu rannu costau am unrhyw gamau y mae'r Deiliad Dyletswydd yn eu cymryd i reoli'r risgiau hyn.
  - Os yw'r perchennog yn rhentu'r safle, ei brydlesu neu ei osod o dan gontract neu gytundeb, ac yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyd i'r perchennog a'r meddiannydd/meddianwyr, dylai bob parti sicrhau bod unrhyw rannau o'r adeilad y maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw ar gael i'w gilydd. Mae hyn yn galluogi pob Deiliad Dyletswydd i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reoliad 4.

# Pwy sydd â rhwymedigaethau o dan Reoliad 4?

- Rheolwr yr Adeilad
- Deiliad allweddi
- Derbynnydd
- Pennaeth
- Gofalwr
- Unigolion sy'n trefnu gwaith adeiladu a chynnal a chadw
- Unigolion sy'n goruchwylio gweithgareddau adeiladu a chynnal a chadw
- Unigolion sy'n rheoli mynediad i safle (neu adael y safle)
- Perchennog yr adeilad










# Rhan 3 – Dod o hyd i asbestos

AROLYGU, ASESU, COFNODI

# CAR 2012 – Rheoliad 5 a 6

5 - Adnabod presenoldeb asbestos

Mae'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr nodi presenoldeb asbestos, ei fath a'i gyflwr cyn i unrhyw waith adeiladu, cynnal a chadw, dymchwel neu waith arall, sy'n debygol i aflonyddu ar asbestos, ddechrau. Mae hefyd yn nodi'r gofyniad i drefnu arolwg os yw'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes am bresenoldeb asbestos yn y safle yn anghyflawn neu'n ymddangos yn annibynadwy.


6 - Asesiad o waith sy'n golygu bod gweithwyr yn dod i gysylltiad ag asbestos

- Mae'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal asesiad risg i nodi'r risgiau o ddod i gysylltiad ag asbestos. Mae'n nodi'r gofyniad i gofnodi unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol a rhoi camau gweithredu ar waith i atal, neu leihau, risg o ddod i gysylltiad ag asbestos i gyflogeion.
- Os yw gwaith yn debygol o olygu y bydd cyflogeion yn dod i gysylltiad ag asbestos, yna bydd rhaid gwneud a chofnodi asesiad addas a digonol o'r risgiau.

# Mathau o Arolygon

- Bydd y math o arolwg yn amrywio yn ystod oes yr adeilad ac efallai y bydd angen sawl un dros amser. Bydd angen Arolwg Rheoli yn ystod meddiannaeth a defnydd arferol yr adeilad/safle* i sicrhau bod yr ACMs yn parhau i gael eu rheoli yn y fan a'r lle.
- Bydd angen Arolwg Adnewyddu neu Ddymchwel pan fydd yr adeilad (neu ran ohono) yn cael ei uwchraddio, ei adnewyddu neu ei ddymchwel.

- *Safleoedd – Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond adeiladau presennol (gan gynnwys isloriau, selerau, twneli, o dan dyddynnod ac ati) a'r safle cyfagos y bydd angen arolwg, ond efallai y bydd rhai sefyllfaoedd lle mae strwythurau neu bibellau tanddaearol cudd a allai ddod i'r amlwg dim ond pan fydd gwaith adnewyddu neu ddymchwel yn cael ei wneud.
- Dylai'r rhain gael eu cynnwys yn yr arolwg fel y bo'n briodol.



# Pa arolwg sydd gen i?

- Dylai eich eiddo gael Arolwg Rheoli Asbestos. Rhaid i gopi o'r arolwg fod ar gael yn rhad ac am ddim ar y safle i unrhyw un sydd angen ei weld.
- Gall copïau papur fod yn haws i'w trosglwyddo i weithwyr cynnal a chadw sy'n ymweld â'r safle, a fydd angen gwybod lleoliad a chyflwr unrhyw asbestos cyn iddyn nhw ddechrau gwaith. Mae copïau electronig yn haws i'w diweddaru ac mae'n debyg eu bod nhw'n fwy addas ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am nifer fawr o eiddo neu safleoedd mwy.
- Os nad oes gennych chi Arolwg Rheoli Asbestos ar gyfer eich safle, dylech chi drefnu i gael un cyn gynted â phosibl.

# Arolwg Rheoli Asbestos

Cofiwch fod arolwg rheoli yn ymwthiol ond nid yn ddinistriol felly ni fyddwch chi’n dod o hyd i'r holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos posibl yn eich safle.


RAMIS:LIVE © 2014

Asbestos
Full Management Survey
For



**22 High Street**
**Alltown**
**CX12 9JJ**


| | |
|---|---|
| Section 1. | Name and Address |
| Section 2. | Survey Objectives |
| Section 3. | Site Outline |
| Section 4. | Analytical Techniques |
| Section 5. | Survey Caveat |
| Section 6. | Inaccessible Areas |
| Section 7. | Survey Recommendations |
| Section 8. | Asbestos Register |
| Section 9. | Full Assessment Report |
| Section 10. | Environmental Inspection Records |
| Appendix 1. | Drawing / Site Plans |
| Appendix 2. | Certificates |





•Efallai bod rhifau bloc ar gyfer yr adeilad

Efallai bod rhifau neu enwau ystafelloedd

Nodwch y rhifau cyfeirnod arolygu. Gwiriwch y rhain yn erbyn y manylion yn y Gofrestr Asbestos a'r Taflenni Arolygu yng nghorff yr arolwg

Gwiriwch yr arolwg am rybuddion a mannau dim mynediad



| | | |
|---|---|---|
| **RAMIS Compliance Solutions** | Site ID: | 10014 |
| | Survey Ref: | *10014/R001* |
| ## Inspection Record | Survey Date: | *8/7/2014* |
| | Published on: | *8/8/2014* |
| | Site Name: | [redacted] |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Building* | 521 | *Floor* | Ground |
| *Room* | 075 Classroom | | |

| *Inspection Ref Number* | |
|---|---|
| 10014/017 | |
| *RAMIS ID* | 532925 |
| *Sample / Inspect Date* | 8/7/2014 |
| *Survey or Inspection* | Full Survey |
| *Surveyor* | [redacted] |
| *Level of ID* | Strongly Presumed |
| *Analyst* | |
| *Analyst Date* | |
| *Lab Reference* | Similar to 1433548-0243 |
| *Contains Asbestos* | Yes |

Cyfeirnod yr Arolygiad



Grey floor tiles and bitumen adhesive under modern tiles



| | |
|---|---|
| Grey floor tiles and bitumen adhesive under modern tiles | Contains Asbestos: Yes |

**Material Assessment**

| Product Type | Score | Extent of Damage | Score | Surface Treatment | Score | Asbestos Type | Score |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Vinyl | 1 | Good Condition | 0 | Reinforced Composite Material | 0 | Chrysotile | 1 |
| Item / Material | Vinyl and bitumen (54 m2) | | | Hazard Band | D | Material Assessment Score | 2 |
| Hazard Warning Level | Very Low Risk | | | | | | |
| Surveyors Comment | Similar to inspection reference 10014/006. Asbestos strongly presumed in vinyl tiles and bitumen adhesive under modern floor tiles. Monitor in situ on an annual basis. | | | | | | |

Mae Asesiad Deunyddiau yn rhoi gwybod i ni beth yw'r cynnyrch, a yw'n cynnwys asbestos, beth oedd ei gyflwr adeg yr arolwg a faint o'r cynnyrch sydd yno.

| | | | Score | Secondary Activity | Score | Activity | Score |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | Rare Disturbance | 0 | Low | 1 |
| | | | Score | Avg. Time In Use | Score | Exposure Potential | Score |
| | | | 3 | > 3 to < 6 hours | 2 | High | 3 |
| | | | Score | Maint. Frequency | Score | Maint. Activity | Score |
| | | | 0 | Unlikely Disturbance | 0 | Rare | 0 |
| Location | Score | Accessibility | Score | Extent / Amount | Score | Disturbance Likely | Score |
| Rooms up to 100m2 | 2 | Inaccessible | 0 | > 50 m2 | 3 | Medium | 2 |
| | | | | | | Priority Assessment Score | 6 |

**Total Assessment**

| Total Assessment | Low Risk | Risk Band | C | Total Assessment Score | 8 |
|---|---|---|---|---|---|



Grey floor tiles and bitumen adhesive under modern tiles

| Contains Asbestos | Yes |
|---|---|

Mae'r Asesiad Blaenoriaeth ar gyfer y Rheolwr Adeilad – mae hyn yn eu helpu i asesu unrhyw risgiau i'w darpariaeth gwasanaeth arfaethedig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Score | Surface Treatment | Score | Asbestos Type | Score |
| | 0 | Reinforced Composite Material | 0 | Chrysotile | 1 |
| ) | | Hazard Band | D | Material Assessment Score | 2 |

| Surveyors Comment | Similar to inspection reference 10014/006. Asbestos strongly presumed in vinyl tiles and bitumen adhesive under modern floor tiles. Monitor in situ on an annual basis. |
|---|---|

**Priority Assessment**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Location Assessment** | | Main Activity | Score | Secondary Activity | Score | Activity | Score |
| | | Low Disturbance | 1 | Rare Disturbance | 0 | Low | 1 |
| No. of Occupants | Score | Frequency of use | Score | Avg. Time In Use | Score | Exposure Potential | Score |
| >10 | 3 | Daily | 3 | > 3 to < 6 hours | 2 | High | 3 |
| **Disturb & Maint Assessment** | | Maintenance Type | Score | Maint. Frequency | Score | Maint. Activity | Score |
| | | Minor Disturbance | 0 | Unlikely Disturbance | 0 | Rare | 0 |
| Location | Score | Accessibility | Score | Extent / Amount | Score | Disturbance Likely | Score |
| Rooms up to 100m2 | 2 | Inaccessible | 0 | > 50 m2 | 3 | Medium | 2 |
| | | | | | | Priority Assessment Score | 6 |

**Total Assessment**

| Total Assessment | Low Risk | Risk Band | C | Total Assessment Score | 8 |
|---|---|---|---|---|---|

# Cyfyngiadau Arolwg – Cafeatau i arolygon

Cafeat cyffredinol a chafeatau sy'n benodol i safleoedd/Ardaloedd dim mynediad neu gyfyngiadau

- Pibellau
- Offer mecanyddol
- Gosodiadau trydanol
- Uchder
- Pibellau a phibellau esgynnol
- Ardal Mynediad Cyfyngedig
- Ardaloedd Dim Mynediad
- Siafftiau lifft
- Ystafelloedd dan glo

# Nid ydyn ni bob amser yn gweld yr Asbestos

- Uwchben nenfydau
- Ceudodau wal
- Rhanwyr o gwmpas drysau/ffenestri
- Boelerdai
- Pibellau llawr
- Pibellau esgynnol
- Atigau

# Math o adeilad



- Traddodiadol – Brics/Blociau
- Adeilad System
- CLASP (Consortiwm o raglen arbennig awdurdodau lleol – math o adeilad system)
- Os oes gennych chi Adeilad System neu Adeilad adeiladu CLASP mae mwy o debygolrwydd o ACMs cudd. Gallai hyn fod ar ffurf amddiffyniad rhag tân i waith dur, rhanwyr, torion a rhagor.

# CLASP & System Adeiladu






















Insulating board off-cuts and debris within wall void

# Cofrestr Asbestos

- Yna, mae’r wybodaeth yn yr arolwg asbestos yn cael ei defnyddio i greu 'Cofrestr Asbestos' o'r asbestos hysbys yn y safle. Mae'r Arolwg yn bwynt mewn amser, yr hyn a welodd y syrfëwr ar ddiwrnod yr arolwg.
- Gall y Gofrestr fod ar bapur neu mewn fformat electronig a dylid ei diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa asbestos bresennol yn y safle.
- Dylai'r gofrestr gynnwys cynllun cywir sy'n dangos lleoliad yr ACMs.
- Dylai'r gofrestr gynnwys manylion yr ACM, lleoliad, graddfa, cyflwr, math o gynnyrch a disgrifiad.
- Dylid dangos ardaloedd dim mynediad ar y gofrestr ac ar y cynlluniau a dylid tybio eu bod nhw’n cynnwys asbestos oni bai bod tystiolaeth gref yn dangos fel arall.
- Dylai'r cofnod gael ei ddyddio i gynorthwyo gydag adolygiadau cyfnodol.

# Ardaloedd wedi'u gwahardd neu'u cyfyngu

- Dylai'r gofrestr gynnwys copi o Hysbysiad Gwahardd a Chyfyngu y safle (os oes ganddyn nhw un).
- Gwahardd – Mae mynediad i'r ardal wedi'i wahardd. Os oes angen mynediad, yna ceisiwch gyngor cymwys. Efallai y bydd angen galluogi gwaith gan Gontractwr Tynnu Asbestos Trwyddedig i hwyluso mynediad.
- Cyfyngu – Mae mynediad i'r ardal yn amodol ar ofynion penodol y mae angen cadw atyn nhw, e.e. gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol a Chyfarpar Diogelu Anadlol priodol, bod â lefelau penodol o hyfforddiant, cyfyngu ar hyd y gwaith, cyfyngu ar fathau o waith.



Lle mae Hysbysiadau Gwahardd neu Gyfyngu i geudod eich nenfwd, dylech chi fonitro cyflwr y nenfwd – dylid gosod teils newydd yn lle'r rhai coll. Efallai y bydd angen hyfforddiant penodol ar y contractwr sy'n gosod teils newydd i weithio ar asbestos neu'n agos at asbestos – NODER: Weithiau mae'r Hysbysiad Gwahardd a Chyfyngu yn berthnasol i'r ceudod yn y nenfwd, ac weithiau dim ond i'r atig – darllenwch eich Hysbysiad Gwahardd a Chyfyngu ac os nad yw'n glir i chi, gwiriwch.



# Cadw gwybodaeth am asbestos eich eiddo yn gyfredol.


Rheolwr y Safle/person cyfrifol i gadw'r manylion cyswllt yn gyfredol.

Rhaid cofnodi unrhyw newidiadau i'ch ACMs:

Ar gyfer e.e. unrhyw waith sy'n effeithio ar eich ACMs, bydd angen tystiolaeth arnoch chi o'r newidiadau.

> Os yw'r safle wedi trefnu'r gwaith yn uniongyrchol, yna bydd angen iddyn nhw ddarparu'r wybodaeth berthnasol i ddarparu tystiolaeth o'r diweddariadau. Os yw'r gwaith yn cael ei drefnu gan rywun arall, dylen nhw gofnodi a chyfathrebu'r newidiadau.
>
> Monitro Cyflwr – dylid cyfathrebu newidiadau i gyflwr eich ACMs sy'n hawdd mynd atyn nhw a chymryd camau lle bo angen.

# Enghreifftiau o dystiolaeth i ddiweddaru'r Gofrestr Asbestos –



**Bond Demolition Ltd**
Demolition & Asbestos Removal

Bond Demolition Ltd
Unit 3B, Ocean Park
Pant Glas Industrial Estate
CF83 8DR
Tel No: 02920 888788

**Statement of Cleanliness after Removal of Asbestos**

**In relation to the removal of - asbestos floor tiles**

Within room 054, dining room

**at:** Ystrad Mynach Primary School, Lewis Street, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7AQ

**on:** 04-04-2018

**The removal consisted of:**

The removal of asbestos vinyl floor tiles, bitumen to remain in place

By: Bond Demolition Ltd
Unit 3B, Ocean Park
Pant Glas Industrial Estate
Bedwas
CF83 8DR

I have checked that the **Asbestos vinyl floor tiles** were removed, and the area was cleaned thoroughly both before and after removing the respiratory zone. I inspected the following areas to make sure there were no visible traces of dust or debris.

Floors and low-level walls and surfaces adjacent to works and transit route rooms adjacent to the works area


I am satisfied that the area can be returned to normal use.

Signed: A G Murphy Position – Contracts Manager

Date: 04-04-2018

Hunan-ardystiad y contractwr

Nodyn cludo gwastraff



Form HWCN01v051

**The Hazardous Waste Regulations 2005: Consignment Note**

Bond Demolition Ltd

**PRODUCER'S/HOLDER'S/CONSIGNOR'S COPY** (Delete as appropriate)

**PART A Notification details**

1 Consignment note code: CAN845/N1630

2 The waste described below is to be removed from (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile): Ystrad Mynach Primary School, Lewis Street, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7AQ

3 Premises code (where applicable): CAN845

4 The waste will be taken to (name, address and postcode): Newport City Council, Docksway Disposal Site, ... NP20 2NS

5 The waste producer was (if different from 2) (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile): Bond Demolition Ltd, Unit 3B, Ocean Park, Pant Glas Ind. Est., Bedwas, Caerphilly, CF83 8DR

**PART B Description of the waste** — If continuation sheet used, tick here

1 The process giving rise to the waste(s) was: Refurbishment

2 SIC for the process giving rise to the waste: 45.251

3 WASTE DETAILS (where more than one waste type is collected all of the information given below must be completed for each EWC identified)

| Description of waste | List of wastes (EWC code)(6 digits) | Quantity (kg) | Component | Concentration (% or mg/kg) | Physical form (gas, liquid, solid, powder, sludge or mixed) | Hazard code(s) | Container type, number and size |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Vinyl floor tiles | 170605 | 600 | Chrysotile | 5-10% | Solid | H7 | |

The information given below is to be completed for each EWC identified

| EWC code | Packing group(s) | UN identification number(s) | Proper shipping name(s) | UN class(es) | Special handling requirements |
|---|---|---|---|---|---|
| 170605 | 3 | 2590 | | 9 | Double bagged |

**PART C Carrier's certificate**

(If more than one carrier is used, please attach schedule for subsequent carriers. If a schedule of carriers is attached tick here.)

I certify that I today collected the consignment and that the details in A2, A4 and B3 are correct and I have been advised of any specific handling requirements.

1 Carrier name: S. Craig

On behalf of (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile): AS A.S

2 Carrier registration no./reason for exemption: CBDU 12270

3 Vehicle registration no. (or mode of transport, if not road): W734 NAX

Signature

Date 04/04/2018 Time 12:05

**PART D Consignor's certificate**

I certify that the information in A, B and C above is correct, that the carrier is registered or exempt and was advised of the appropriate precautionary measures. All of the waste is packaged and labelled correctly and the carrier has been advised of any special handling requirements.

1 Consignor name: A. Murphy

On behalf of (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile): AS A.S

Signature

Date 04/04/2018 Time 12:05

**PART E Consignee's certificate** (where more than one waste type is collected all of the information given below must be completed for each EWC)

| Individual EWC code(s) received | Quantity of each EWC code received (kg) | EWC code accepted/rejected | Waste management operation (R or D code) |
|---|---|---|---|
| 170605 | 700 Kgs | | D05 |

1 I received this waste at the address given in A4 on: Date 04/04/2018 Time 13:07

2 Vehicle registration no. (or mode of transport if not road): W734 NAX

3 Where waste is rejected please provide details:

I certify that waste management licence/permit/authorised exemption no(s).

DP 3733 BK

authorises the management of the waste described in B at the address given in A4.

Name:


On behalf of (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile):

NCC WASTE DISPOSAL SITE
DOCKSWAY
NEWPORT
NP20 2NS

Signature

Date 04/04/2018 Time 13:07

HWCN01v051



Newidiadau i'r cynllun 'Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur'



Ffotograffau cyn ac ar ôl y gwaith.

MAE ANGEN ADLEWYRCHU POB UN O'R RHAIN YN EICH CYNLLUN RHEOLI ASBESTOS

# Rhan 4 – Rheoli Asbestos


GWEITHDREFNAU, CYFATHREBU, HYFFORDDIANT

# Monitro Cyflwr

- Bob blwyddyn, mae angen monitro cyflwr yr ACMs hysbys sy'n hawdd mynd atyn nhw yn eich safle a chofnodi’r broses.
- Sicrhewch fod y dasg hon yn cael ei gwneud – gall hyn gael ei gontractio’n allanol, gall gael ei drefnu gan y landlord neu reolwr yr adeilad – mae’n bwysig gwybod eich rolau a'ch cyfrifoldebau.
- Rhaid i'r dasg gael ei chyflawni gan aelod cymwys o staff neu unigolyn penodedig

Efallai y bydd asbestos yn bresennol yn eich eiddo ond ei fod wedi'i orchuddio o dan linell y nenfwd i'w amddiffyn rhag difrod damweiniol.






Mae'n bwysig bod yr holl gladin yn parhau i fod mewn cyflwr da i amddiffyn yr ACMs. Rhowch wybod am unrhyw ddiffygion



# Gweithdrefnau Brys

- Mae'r Weithdrefn Brys hon wedi'i chymryd o gyhoeddiad HSG210 EM1 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- COFIWCH – Peidiwch â rhoi eich hun nac unrhyw un arall mewn perygl.
- Os yw ACM dan amheuaeth wedi cael ei aflonyddu, peidiwch â'i lanhau – STOPIWCH a gofyn am help.



# Hyfforddiant, gwybodaeth a chyfarwyddyd
# Rheoliad 10 CAR 2012

| | | |
|---|---|---|
| Thema gyffredin ar gyfer pob mater iechyd a diogelwch | Sicrhau bod pobl yn wybodus ac yn gymwys | Cynorthwyo rheoli contractwyr yn effeithiol |

# Darparu gwybodaeth i unrhyw un a allai amharu ar asbestos

Rhaid i chi ddweud wrth y bobl ganlynol am eich cynllun rheoli asbestos:

- rheolwyr y safle neu'r adeilad
- cyflogeion
- contractwyr
- gweithwyr cynnal a chadw

# Rhannwch eich cynllun gyda rheolwyr safleoedd neu adeiladau

Dylech chi sicrhau bod eich cynllun rheoli asbestos ar gael ar y safle penodol y mae'n ymwneud ag ef.

Rhaid i'r rhai sydd â'r cyfrifoldeb rannu'r cynllun gydag unrhyw un sy'n gweithio ar y safle.

Fel deiliad dyletswydd neu'r person sy’n gyfrifol, dylech chi wneud y canlynol:

- dweud wrth weithwyr beth yw trefniadau’r cynllun rheoli
- darparu gwybodaeth i'r gwasanaethau brys am leoliad a chyflwr unrhyw ddeunyddiau hysbys sy'n cynnwys asbestos (ACMs)
- darparu'r cynllun rheoli i gynrychiolwyr gweithwyr a chynrychiolwyr diogelwch undebau llafur

# Dweud wrth weithwyr am eich cynllun rheoli asbestos

Rhaid i chi ddweud wrth weithwyr cyn iddyn nhw ddechrau gweithio ar adeiladwaith eich adeilad am eich cynllun rheoli asbestos. Mae hyn er mwyn eu hatal nhw rhag aflonyddu ar yr ACMs heb y rheolaethau cywir yn eu lle.

Rhaid i chi gynnwys eich cyflogeion ac unrhyw gontractwyr sy'n dod i'ch safle, er enghraifft, wrth wneud:

- gwaith adeiladu – adeiladwyr, towyr, paentwyr ac addurnwyr, seiri, plastrwyr, gosodwyr siopau
- gwaith gosod – plymwyr, gosodwyr nwy, trydanwyr, peirianwyr ffôn, larwm a gwresogi ac awyru
- gwaith cynnal a chadw – peirianwyr, atgyweiriwyr
- cloddio a dymchwel – contractwyr, syrfewyr


## Pobl eraill y mae angen i chi rannu'r cynllun â nhw

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch –

Mae rhai pobl, fel athrawon, yn annhebygol o aflonyddu ar asbestos ond yn gweithio mewn adeilad sy'n ei gynnwys. Rhaid i chi roi gwybod iddyn nhw am y canlynol:

- lleoliadau penodol ACMs yn yr ystafelloedd neu'r ardaloedd y maen nhw'n eu defnyddio
- i beidio aflonyddu ar yr asbestos a beth i'w wneud os bydd difrod damweiniol

# Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Prif gamau i reoli Asbestos



# Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi



# Ystyried rolau, cyfrifoldebau, gweithgareddau

- Rheolwr y Safle
- Staff sy'n ymgysylltu â chontractwyr ac yn trefnu gwaith
- Contractwyr/gweithwyr sy'n gwneud gwaith adeiladu neu gynnal a chadw
- Technegwyr TG/Gofalwyr
- Deiliaid allweddi/derbynnydd/y rhai sy'n rheoli mynediad/gadael yr adeilad
- Staff arlwyo/glanhau
- Staff y mae'n ofynnol iddyn nhw gynnal gwaith monitro cyflwr asbestos
- Yr holl staff sy'n meddiannu'r safle

# Lefelau hyfforddiant

- Sesiynau briffio/cyflwyniadau diogelwch
- Ymwybyddiaeth o Asbestos
- Hyfforddiant Asbestos heb drwydded
- Hyfforddiant Trwyddedadwy
- Dyletswydd i Reoli Asbestos
- Hyfforddiant Swyddog Technegol
- Cymwysterau Proffesiynol Asbestos P405 P402 ac ati

# Y Ffordd Ymlaen……..





- An asbestos management plan sets out the procedures and arrangements to manage the risk from asbestos-containing materials (ACMs) in your premises.

**Beth ddylai eich cynllun ei gynnwys**

Dylai eich cynllun gynnwys:

- y rhai sy'n gyfrifol am reoli asbestos gan gynnwys dirprwyon
- eich cofrestr asbestos, gan gynnwys cynllun y safle sy'n dangos lleoliad deunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACMs) a'r ardaloedd nad ydyn nhw wedi'u harchwilio
- yr atodlen ar gyfer monitro cyflwr ACMs
- sut y byddwch chi'n rhannu eich cofrestr asbestos gyda gweithwyr neu gontractwyr sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw
- trefniadau rheoli i sicrhau peidio ag aflonyddu ar ACMs
- gweithdrefnau brys os yw ACMs yn cael eu aflonyddu.
- Dylai'r cynllun fod yn benodol i safle a dweud pwy sy'n gyfrifol am bob elfen o'r cynllun. Gall fod yn ysgrifenedig neu'n electronig.
- Gwnewch y cynllun yn hawdd ei ddarllen, ei ddiweddaru a dod o hyd iddo pan fydd ei angen arnoch chi neu unrhyw un arall.

# CWESTIYNAU